



**Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru**  
**Older People's Commissioner for Wales**

# **Llywio'ch Ffordd trwy Wasanaethau Cymdeithasol**

**Daflen Ffeithiau 2: Llais a Rheolaeth**

# Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Mae Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru yn llais ac yn eiriolwr annibynnol ar gyfer pobl hŷn ledled Cymru. Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod gan bobl hŷn lais sy'n cael ei glywed, eu bod yn cael dewis a bod ganddynt reolaeth, nad ydynt yn teimlo'n unig nac yn dioddef gwahaniaethu a'u bod yn derbyn y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Mae'r Comisiynydd a'i thîm yn gweithio i sicrhau bod Cymru'n lle da i heneiddio ynddo, nid i rai pobl yn unig ond i bawb.

## Sut i gysylltu â'r Comisiynydd:

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru  
Adeiladau Cambrian  
Sgwâr Mount Stuart  
Caerdydd  
CF10 5FL

Ffôn: 029 2044 5030  
E-bost: [gofyn@olderpeoplewales.com](mailto:gofyn@olderpeoplewales.com)  
Gwefan: [www.olderpeoplewales.com](http://www.olderpeoplewales.com)  
Trydar: [@comisiwnphcymru](https://twitter.com/comisiwnphcymru)

# Llais a Rheolaeth

Mae'r [Ddeddf](#) yn cyflwyno nifer o ddyletswyddau 'cyffredinol' sy'n weithredol trwy gydol y ddeddfwriaeth. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i Awdurdodau Lleol weithredu mewn ffordd benodol pan fyddant yn cyflawni'r dyletswyddau a osodir arnynt gan y Ddeddf.

Rhaid i Awdurdod Lleol:

- Ganfod a gwrandao ar eich barn, eich dymuniadau a'ch teimladau.
- Cydnabod pwysigrwydd hybu a pharchu eich urddas.
- Ystyried eich nodweddion, eich diwylliant a'ch credoau (gan gynnwys eich iaith, er enghraifft)
- Tybio mai chi yw'r person gorau i farnu eich llesiant eich hun ac i wybod beth sydd orau i chi.
- Cydnabod pwysigrwydd hybu eich annibyniaeth.
- Cydnabod pwysigrwydd darparu cymorth priodol a fydd yn eich galluogi i gymryd rhan yn y penderfyniadau am eich gofal a chymorth (neu gymorth i ofalwyr), yn enwedig os ydych chi'n cael anawsterau wrth gyfathrebu.

Am ragor o wybodaeth am ddyletswyddau cyffredinol, gweler [Adran 6 o'r Ddeddf](#) a [Rhan 2 o'r Cod Ymarfer \(Swyddogaethau Cyffredinol\)](#), Tudalen 14.

## Hawl i Eiriolaeth

Rhaid i Awdurdod Lleol ganfod a gwrandao ar eich barn, eich dymuniadau a'ch teimladau. Rhaid iddynt hefyd gydnabod pwysigrwydd darparu cymorth priodol i'ch galluogi i gymryd rhan yn y penderfyniadau am eich gofal a chymorth (neu gymorth i ofalwyr), yn enwedig os ydych chi'n cael anhawster wrth gyfathrebu.

Mae hyn yn cynnwys sicrhau eich bod yn gallu rhoi gwybod iddynt os hoffech gael rhywun i eistedd wrth eich ochr pan wneir penderfyniadau am eich gofal a chymorth. Gallwch ddewis cael aelod o'r teulu neu ffrind i wneud hyn – byddant yn eich helpu i fynegi eich barn, eich dymuniadau a'ch teimladau neu i eirioli ar eich rhan.

Os nad oes gennych chi neb i eiriol ar eich rhan, efallai y bydd gennych chi hawl i gael Eiriolydd Proffesiynol Annibynnol.

Mae eiriolydd proffesiynol annibynnol yn rhywun a all eich helpu pan fyddwch yn delio â materion anodd i'ch helpu i gael y gofal a chymorth sydd ei angen arnoch trwy sicrhau bod eich barn yn cael ei chlywed. Maent yn wahanol i bobl eraill sydd hefyd yn gallu siarad neu eiriol ar eich rhan (fel gweithiwr cymdeithasol, er enghraifft) gan eu bod yn gwbl annibynnol ac nid oes dyletswydd arnynt, fel gweithiwr cymdeithasol er enghraifft, i weithredu er eich budd pennaf. Eu gwaith hwy yw cyfleu eich barn, eich dymuniadau a'ch teimladau, beth bynnag fyddai goblygiadau hynny.

Rhaid i'r Awdurdod Lleol ddarparu eiriolydd proffesiynol annibynnol ar eich cyfer, yn ddi-dâl, os ydych chi'n profi anawsterau neu rwystrau penodol wrth geisio mynegi eich barn. Mae'r rhwystrau hyn yn cynnwys materion a sefyllfaoedd sy'n effeithio ar eich gallu i:

- ddeall gwybodaeth berthnasol
- cofio gwybodaeth
- defnyddio neu bwysu a mesur gwybodaeth (gwneud penderfyniadau)
- cyfathrebu

Rhaid i Awdurdod Lleol ystyried a oes angen eiriolydd arnoch ar yr adegau canlynol:

- I'ch galluogi i gael gwybodaeth, cyngor a chymorth
- Wrth asesu eich angen am ofal a chymorth (neu anghenion gofal yn achos gofalwyr)
- Wrth benderfynu sut i ddiwallu eich anghenion gofal a chymorth (neu anghenion cymorth yn achos gofalwyr)
- Wrth wneud taliad uniongyrchol
- Wrth baratoi, cynnal neu adolygu eich Cynllun Gofal a Chymorth Plan (neu Gynllun Cymorth ar gyfer gofalwyr)

- Pan fyddwch yn dweud eich bod yn ffafrio math penodol o lety
- Wrth amddiffyn eich eiddo os ydych yn cael gofal i ffwrdd o'ch cartref
- Yn ystod y broses asesiad ariannol
- Wrth benderfynu ar eich gallu i dalu am eich gofal a chymorth (neu gymorth i ofalwyr)
- Wrth benderfynu a ddylid caniatáu taliad gohiriedig
- Wrth godi am wasanaethau ataliol
- Wrth adennill taliadau gan unigolyn
- Adolygiadau sy'n gysylltiedig â chodi tâl
- Trwy gydol y broses ddiogelu
- Yn ystod cwynion am wasanaethau cymdeithasol

Agwedd allweddol ar y gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, y bydd dyletswydd ar bob Awdurdod Lleol i'w ddarparu, fydd rhoi gwybodaeth i chi am ystod y gwasanaethau eiriolaeth sydd ar gael yn eich ardal a rhoi help i chi i gael gafael arnynt. Mae hyn yn cynnwys cymorth i'ch helpu i gael gafael ar y gwasanaeth eiriolaeth.

Am ragor o wybodaeth am Eiriolaeth, gweler [Adran 181 o'r Ddeddf](#) a [Rhan 10 o'r Cod Ymarfer \(Eiriolaeth\)](#).

